Yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol

Pwy sy'n gallu cael yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol?

Yn y DU, mae gan y mwyafrif o weithwyr sy'n 16 oed neu drosodd yr hawl i dderbyn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol (NMW). Rydych yn gallu derbyn yr isafswm cyflog p'un ai bod gennych swydd barhaol, eich bod gweithio i asiantaeth neu ar gontract byrdymor.
Nid oes gan rai pobl yr hawl i dderbyn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol. Mae'r bobl hyn yn cynnwys:

- gweithwyr dan 16 oed
- au-pairs a nanis os ydynt yn byw gyda theulu ac nid ydynt yn talu am lety neu brydau bwyd
- pobl hunangyflogedig
- aelodau o'r lluoedd arfog
- gweithwyr gwirfoddol
- rhai hyfforddeion ar gynlluniau'r llywodraeth.

Am restr o bobl sy'n methu hawlio'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol, cysylltwch â llinell gymorth Hawliau Cyflog a Gwaith neu ymgynghorydd profiadol. (Gweler Cymorth ychwanegol).

Faint yw'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol?

Mae yna dair gwahanol gyfradd o gyflog sy'n dod o dan yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol:

- ar gyfer gweithwyr sy'n 21 neu'n hŷn, y gyfradd gyfredol yw £6.08 yr awr
- ar gyfer gweithwyr rhwng 18 – 20, y gyfradd gyfredol yw £4.98 yr awr
- ar gyfer gweithwyr sy'n 16 (sydd dros yr oedran gadael ysgol) a 17, y gyfradd gyfredol yw £3.64
- ar gyfer prentisiaid sydd naill ai o dan 19 neu yn ystod flwyddyn gyntaf eu prentisiaeth, y gyfradd gyfredol yw £2.60.

Yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol yw'r gyfradd gyfartalog fesul awr sy'n rhaid cael ei thalu am bob awr a weithiwyd dros gyfnod penodol o amser. Os cewch eich talu yn wythnosol, y cyfnod hwn yw wythnos, ac oes cewch eich talu yn fisol, y cyfnod hwn yw mis. Cyn belled â bod eich cyflog cyfartalog fesul awr ddim yn is na'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol yn ystod y cyfnod hwn, efallai y byddwch yn ennill llai na'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol am rai oriau.

Mae'r oriau gwaith sy'n gymwys ar gyfer NMW yn cynnwys amser a dreuliwyd 'ar alwad' neu amser a dreuliwyd dros nos yn y gweithle os ydych yn effro ac yn gweithio yn ystod yr amser hwn. Er enghraifft, os oes angen i chi gyflawni dyletswyddau trwy gydol y nos, megis gwyliwr nos neu ar ddyletswydd yn ystod y nos mewn cartref gofal.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Os nad yw eich cyflogwr yn rhoi'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol i chi

Os ydych yn credu y dylech gael yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol, gallwch ofyn i'ch cyflogwr i ddweud pam wrthoch. Mae'n bosib nad yw eich cyflogwr yn sylweddoli ei fod yn rhoi swm sy'n llai na'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol i chi. Gall eich cyflogwr gael gwybodaeth oddi ar **linell gymorth Hawliau Cyflog a Gwaith** (gweler Cymorth Ychwanegol). Os ydych yn aelod o undeb llafur, ewch at eich cynrychiolydd am gyngor.

Ni ellir eich gorfodi i dderbyn cyflog sy'n is na'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol. Os yw eich cyflogwr wedi ceisio eich gorfodi neu ddwyn perswâd arnoch i lofnodi cytundeb sy'n rhoi llai na'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol i chi, nid yw'r cytundeb hwn yn gyfreithiol-rwym. Os na fydd eich cyflogwr yn fodlon siarad am yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol, neu os nad ydych yn teimlo fel y gallwch siarad ag ef, ffoniwch linell gymorth Hawliau Cyflog a Gwaith neu siaradwch ag ymgynghorydd profiadol (gweler Cymorth Ychwanegol).

Os ydych yn credu bod eich cyflogwr yn ymwybodol o'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol ac nid yw'n ei dalu neu cewch eich gorfodi i lofnodi cytundeb sy'n rhoi llai o dâl i chi na'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol, ffoniwch linell gymorth Hawliau Cyflog a Gwaith a fydd yn dweud wrth yr **asiantaeth gorfodi'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol**. Caiff yr asiantaeth hon ei rhedeg gan Gyllid a Thollau EM ac mae'n gallu archwilio cyflogwyr sydd ddim yn talu'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol i'w gweithwyr. Os nad ydych am eich cyflogwr i wybod eich bod wedi cysylltu â'r asiantaeth gorfodi'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol, mae'n rhaid i chi ddweud wrthynt eich bod am fod yn anhysbys. Mewn rhai achosion, gall riportio cyflogwr arwain at fwlio neu driniaeth annheg yn y gwaith.

Mae gan y mwyafrif o weithwyr yr hawl i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol drwy hawlio achos o **ddidyniad anghyfreithlon o gyflog** gerbron **tribiwnlys cyflogaeth**. Fodd bynnag, os ydych yn weithiwr, mae'n syniad da codi **achwyniad ysgrifenedig** gyda'ch cyflogwr yn gyntaf. Os nad ydych yn weithiwr a bod hawl gennych i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol oherwydd eich bod yn is-gontractwr, gweithiwr llawrydd neu weithiwr achlysurol, gallwch fynd yn syth at dribiwnlys cyflogaeth. Mae yna derfynau amser llym ar gyfer cyflwyno achos gerbron tribiwnlys cyflogaeth (gweler isod). Nid oes yn rhaid eich bod wedi gweithio i'ch cyflogwr am unrhyw gyfnod penodol cyn hawlio.

Beth allwch chi ei wneud os ydych yn cael eich bwlio neu eich diswyddo am gwyno am yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol

Os ydych yn cael eich bwlio neu eich trin yn annheg yn y gwaith, neu os ydych wedi cael eich diswyddo am riportio eich cyflogwr, mae'n bosib y gallwch hawlio achos o aflonyddwch gerbron **tribiwnlys cyflogaeth**, neu siwio eich cyflogwr am dorri eich contract gwaith (**tor-cytundeb**). Ni ddylech wneud y pethau hyn heb siarad ag ymgynghorydd profiadol neu gyfreithiwr cyflogaeth yn gyntaf (gweler isod). Os hoffech barhau yn eich swydd, mae hefyd angen i chi feddwl am yr effaith y gallai'r camau hyn ei gael ar eich perthynas gyda'ch cyflogwr.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Terfynau amser ar gyfer gwneud cais i dribiwnlys cyflogaeth

Os hoffech gyflwyno achos gerbron tribiwnlys cyflogaeth, mae'n rhaid i chi ei wneud o fewn tri mis namyn diwrnod o ddyddiad y digwyddiad yr ydych yn ei gwyno amdano. Mae'r terfyn amser yn gymwys os ydych yn codi achwyniad neu'n apelio yn erbyn penderfyniad. Mae'n bwysig eich bod yn cael cymorth gan ymgynghorydd cyflogaeth profiadol cyn gynted ag y gallwch er mwyn
sicrhau eich bod yn gweithredu o fewn y terfyn amser.

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth

Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Llinell gymorth Hawliau Cyflog a Gwaith

Llinell gymorth gyfrinachol yw llinell gymorth Hawliau Cyflog a Gwaith sy'n gallu eich cynghori ar eich hawliau a'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol. Ffoniwch y llinell gymorth ar 0800 917 2368 (ffôn testun yw 0800 121 4042).

Directgov

Cewch hyd i fwy o wybodaeth ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol ar wefan Directgov sef www.direct.gov.uk.

Gwefan TUC

Mae TUC wedi lansio cyfrifiannell isafswm cyflog ar-lein sy'n eich helpu i ddarganfod p'un ai eich bod yn derbyn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu beidio. Cewch hyd i'r cyfrifiannell ar wefan worksmart y TUC sef www.worksmart.org.uk.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Gwyliau a chyflog gwyliau
- Hawliau tadau sy'n gweithio
- Cyflogwr yn dal eich cyflog yn ôl
- Datrys anghydfodau yn y gwaith
- Hawliau mamolaeth yn y gwaith

**Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith.
Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr, Cymru a'r Alban yn unig.**

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 18 Hydref 2011, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk – lle gallwch lawrlwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr